Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Fenton
Portfield
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1BZ

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Fenton

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Fenton yn Hwlffordd yn Sir Benfro. Mae 410 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 44 o ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae 14 o ddosbarthiadau, y mae dau ohonynt yn rhai oedran cymysg. Yn ychwanegol, mae dau ddosbarth adnoddau dysgu sy'n darparu ar gyfer 24 o ddisgyblion ag anghenion cymhleth.

Cyfartaledd treigl y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 33%, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 36% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 21%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol neu'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol gan Estyn ym mis Hydref 2012. Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2018.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae lles y disgyblion yn ganolog i waith pennaeth a staff Ysgol Gynradd Fenton. Mae staff yn gefnogol a gofalgar, ac mae hyn yn helpu gwneud yr ysgol yn lle croesawgar a chynhwysol lle gall disgyblion ddysgu a rhoi cynnig ar bethau newydd heb ofni methu.

At ei gilydd, mae llawer o athrawon yn cynllunio profiadau a gweithgareddau dysgu diddorol fel bod disgyblion yn mwynhau datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu a pharodrwydd i weithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'r rhan fwyaf o'u medrau yn briodol, ond nid yw eu medrau ysgrifennu cystal ag y gallent fod. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digon cryf, ac nid ydynt yn cyflawni'n ddigon da mewn perthynas â'u mannau cychwyn.

Mae'r pennaeth wedi cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, ac mae'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion. Mae hi wedi sefydlu strwythur ac ymagwedd newydd at arweinyddiaeth, sydd wedi sicrhau ymrwymiad y rhan fwyaf o arweinwyr a staff, ac wedi arwain at welliannau diweddar. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau wedi cael effaith arwyddocaol ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth eto.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Datblygu rolau a chyfrifoldebau a ddyrannwyd yn ddiweddar i'r arweinwyr, fel eu bod i gyd yn cyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at gyflawni gweledigaeth yr ysgol a'i blaenoriaethau strategol

A2 Sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u mannau cychwyn

A3 Gwella ansawdd ysgrifennu disgyblion

A4 Darparu cyfleoedd cyson dda i ddisgyblion gymhwyso ac atgyfnerthu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau a dealltwriaeth sy'n briodol i'w hoedran, neu islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig,. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn cyflawni safonau priodol, ond nid yw lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd digon cryf ac nid ydynt yn cyflawni'n ddigon da mewn perthynas â'u mannau cychwyn. Mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu nodau personol.

Maer rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwrando'n ofalus. Mae llawer ohonynt yn esbonio eu syniadau'n dda a lleiafrif ohonynt yn cynnig atebion estynedig i gwestiynau. Er enghraifft, yn ardal chwarae rôl y castell, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn disgrifio sut maent yn coginio bwyd ac yn esbonio ei fod yn rhy boeth i'w fwyta. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn esbonio eu meddyliau a'u syniadau'n dda, gan ddefnyddio geirfa arbenigol, pan fo'n briodol; er enghraifft, maent yn amlinellu'n ddychmygus yr hoffent ddatblygu cuddfan wyddoniaeth gyda mynediad ati trwy roi olion bysedd a laseri. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn gwrando'n astud mewn trafodaethau grŵp, ac maent yn tueddu i siarad ar draws ei gilydd.

Wrth iddynt symud trwy'r cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth gadarn am lythrennau a'u seiniau cysylltiedig, a defnyddiant hyn i greu geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen testunau syml yn rhugl ac yn gywir. Mae disgyblion mwy abl yn darllen geiriau hwy, sy'n benodol i bwnc, fel 'battering ram', yn dda. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt bob amser yn adnabod geiriau cyffredin yn ddigon hawdd. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau ffuglen a ffeithiol yn annibynnol am gyfnodau cynaledig. Maent yn deall sut mae atalnodi yn effeithio ar ystyr a darlleniad brawddeg; er enghraifft, maent yn adnabod bod ebychnodau yn golygu y dylent ddarllen â phwyslais. Mae disgyblion mwy abl yn rhesymu ynghylch gwybodaeth yn fedrus o lyfrau, er enghraifft dod i gasgliad am bersonoliaeth cymeriad oddi wrth y ffordd y mae'n siarad ac yn ymddwyn.

Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu testun syml sy'n gwneud synnwyr i bobl eraill, fel disgrifiad o ddraig goll. Maent yn trafod sut i gynllunio eu hysgrifennu, sy'n eu galluogi i greu dilyniant o frawddegau i fynegi eu syniadau'n dda. Mae llawer ohonynt yn adnabod ac yn defnyddio ystod addas o ffurfiau ysgrifennu, fel llythyr, yn gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu disgrifiadau manwl yn briodol ar destun penodol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr i Lywodraeth Cymru am faterion iechyd plant. Maent yn golygu ac ailddrafftio eu hysgrifennu â medr cynyddol. Mae disgyblion mwy abl yn esbonio eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd ar fwyd sothach. Fodd bynnag, yn y ddau gyfnod, prin yw'r disgyblion sy'n defnyddio amrywiaeth ddigon eang o eirfa ddiddorol neu'n datblygu eu syniadau yn ddarnau ysgrifenedig hwy yn ddigon da. Nid yw lleiafrif ohonynt bob amser yn sillafu nac yn defnyddio atalnodi perthnasol yn ddigon cywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd i safon debyg ar draws y cwricwlwm, ond mewn

ystod gyfyngedig o gyd-destunau. Mae disgyblion hŷn yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu yn gwneud cynnydd da wrth ysgrifennu storïau syml, gyda dechrau, canol a diwedd clir, gan ddefnyddio brawddegau wedi'u diffinio ag atalnodau llawn.

Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio eu medrau mathemategol yn bwrpasol yn eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Ym Mlwyddyn 1, mae llawer ohonynt yn nodi priodoleddau siapiau 2D yn gywir wrth greu llun roced. Maent yn amcangyfrif yn synhwyrol ac yn mesur amser yn gywir wrth amseru rhediad o gwmpas y cae mewn munudau ac eiliadau. Maent yn cofnodi gwybodaeth yn ofalus ac yn ei defnyddio i greu siartiau bar, er enghraifft wrth gynnal arolwg traffig. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhif cryf ac yn eu defnyddio'n dda mewn ystod gyfyngedig o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn dyblu, yn haneru, yn lluosi ac yn rhannu rhifau'n hyderus, ac yn cyfrifo canrannau i ganfod cost eitemau mewn gwerthiant cyn y Nadolig.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda i wella eu dysgu mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys sganio codau QR yn ofalus i gefnogi eu hymchwil ym Mlwyddyn 2. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau TGCh effeithiol, ac maent yn arbed ac adalw eu gwaith yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r rhyngrwyd a chronfeydd data yn fedrus i chwilio am wybodaeth, a'i dadansoddi, ar draws y cwricwlwm, er enghraifft fel rhan o'u dysgu am y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at y Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn cyfarch ei gilydd ac yn ateb y gofrestr yn Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ateb cwestiynau personol syml yn dda ac yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol i ofyn am ddiod neu fynd i'r toiled. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu yn ymateb yn frwdfrydig i ganeuon Cymraeg â symudiadau. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod gynyddol o ymadroddion a brawddegau Cymraeg yn bwrpasol. Mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio amser y gorffennol yn dda, er enghraifft i ddweud ble maen nhw wedi bod a'r hyn a welson nhw. Mae mwyafrif ohonynt yn darllen testunau syml yn briodol, yn ynganu geiriau cyfarwydd yn dda ac yn gwneud synnwyr o'r hyn maent yn ei ddarllen.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod ble i fynd am gymorth a chefnogaeth, os bydd angen. Maent yn deall bod angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. I gefnogi hyn, mae aelodau o'r grŵp arweinwyr digidol yn hyrwyddo strategaethau diogelwch ar-lein yr ysgol yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud penderfyniadau synhwyrol am ffordd iach o fyw. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau derbyn yn dylunio cebabau ffrwythau iach, ac mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn rhedeg siop ffrwythau iach. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar ystod eang yr ysgol o weithgareddau corfforol allgyrsiol sy'n hyrwyddo llesiant corfforol a hunan-barch yn dda, gan gynnwys clybiau pêl-droed a rygbi, a digwyddiadau chwaraeon mewn partneriaeth â Choleg Penfro. Mae'r ysgol gyfan yn cymryd rhan mewn digwyddiad calonnau iach ar gyfer elusen, ac mae disgyblion yn gwneud addunedau ar ffyrdd y gallant wella eu hiechyd cardiofasgwlaidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos gofal ac ystyriaeth am ei gilydd, ac maent yn gwrtais a chroesawgar gydag oedolion ac ymwelwyr. At ei gilydd, mae ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn dda, er bod ychydig ohonynt yn tueddu i fod yn rhy afreolus pan na chânt eu goruchwylio'n agos ar adegau anffurfiol o'r diwrnod ysgol, er enghraifft yn ystod y clwb brecwast. Mae gan bron bob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn siarad yn fywiog am eu gwaith ar y Celtiaid, ac mae disgyblion Blwyddyn 5 yn disgrifio'n fanwl eu profiad o gropian trwy ffosydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal lefelau priodol o ganolbwyntio ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Maent yn datblygu gwydnwch, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau hunangymorth i geisio cael atebion i broblemau pan fyddant yn wynebu anawsterau. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu gallu i weithio'n annibynnol trwy weithio gydag athrawon i ddyfeisio a chreu tasgau annibynnol yn gysylltiedig â'u testun.

Yn gynyddol, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i wella eu gwaith, er enghraifft trwy farcio blwch melyn, sy'n nodi agwedd benodol ar waith i'w datblygu ymhellach. Mae disgyblion yn dechrau cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol trwy grwpiau llais y disgyblion, fel y cyngor ysgol, capteiniaid tai, arweinwyr digidol a'r Criw Cymraeg. Mae aelodau o'r Criw Cymraeg yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddynt rôl allweddol mewn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol; er enghraifft, maent yn arwain gemau maes chwarae, yn ysgrifennu adran yng nghylchlythyr yr ysgol, ac yn cael rhan flaenllaw yn y gwasanaeth Cymraeg wythnosol. Bu hyn yn llwyddiannus o ran codi proffil y Gymraeg ar draws yr ysgol.

Mae cyfraddau presenoldeb am y tair blynedd ddiwethaf wedi codi'n gyson, ac erbyn hyn, maent yn cymharu'n ffafriol â chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae bron pob un o'r athrawon, yn cynnwys y rhai yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu, yn datblygu perthnasoedd gwaith cryf gyda disgyblion. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol i gynllunio ystod o weithgareddau dysgu pwrpasol sy'n cymell y rhan fwyaf o ddisgyblion i gymryd rhan yn frwdfrydig. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn cynllunio gwersi sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion gynllunio sut i achub eu draig o gastell, ac mae hyn yn helpu cynnal brwdfrydedd disgyblion dros gyfnod. Mae llawer o athrawon yn defnyddio technegau holi yn fedrus i ymestyn dysgu disgyblion, ac adeiladu ar yr hyn y gallent ei wneud eisoes. Mae llawer ohonynt yn cynllunio dysgu ar lefel briodol i sicrhau eu bod yn herio llawer o ddisgyblion yn dda, ond nid yw'r arfer hon yn ddigon cadarn ym mhob dosbarth. Mewn llawer o achosion, mae staff cymorth yn defnyddio eu medrau'n dda i gyfrannu'n effeithiol at ddysgu disgyblion. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw athrawon yn rhoi digon o arweiniad i'r oedolion ychwanegol yn eu dosbarthiadau. Mae hyn yn golygu nad ydynt bob amser yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu diben gweithgareddau dysgu gyda disgyblion yn dda. Maent yn dechrau helpu disgyblion i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i lwyddo yn eu dysgu. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae adborth llafar gan athrawon yn ystod gwersi yn helpu disgyblion i adnabod sut gallant wella eu

gwaith fel y maent yn ei wneud, er enghraifft ble i ychwanegu atalnodi at frawddeg, fel ei bod yn gwneud synnwyr. Mae athrawon yn dechrau nodi'n fuddiol ble gall disgyblion wella eu gwaith yn eu llyfrau; er enghraifft, maent yn amlygu â blwch melyn agweddau y mae angen i ddisgyblion eu hailystyried fel eu bod yn gwybod ble i ganolbwyntio eu hymdrechion wrth olygu eu hysgrifennu. Hefyd, mae athrawon yn datblygu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ystyried ansawdd eu gwaith eu hunain, a gwaith disgyblion eraill. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae llawer o'r strategaethau hyn, a megis dechrau y maent o ran cael effaith ar wella dealltwriaeth disgyblion o'u cryfderau a ble mae angen iddynt wella.

Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm cyfoethog a chytbwys ar gyfer disgyblion, gan sicrhau eu bod yn cael profiadau addas ym mhob maes dysgu a phwnc. Mae bron pob un o'r athrawon yn meithrin medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion yn briodol. Maent yn dechrau paratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm trwy greu cysylltiadau yn eu cynllunio a'u cyflwyno â datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, creadigol ac iach. Mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau'r cyfnod sylfaen yn adlewyrchu addysgeg ac egwyddorion priodol, ac yn darparu profiadau dysgu difyr ac ysgogol ar gyfer disgyblion. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, nid yw diben y gweithgareddau, yn enwedig yn yr amgylchedd awyr agored, bob amser yn glir. Mae ffocws cynyddol ar ddulliau ymarferol ac annibynnol yng nghyfnod allweddol 2, gan gynnwys 'tasgau' sy'n helpu disgyblion i gynllunio, yn gwneud dysgu'n fwy rhyngweithiol a difyr i ddisgyblion hŷn.

Mae'r dosbarthiadau adnoddau dysgu yn darparu amgylchedd meithringar sy'n diwallu anghenion unigol disgyblion yn dda. Mae staff yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau'n systematig ac yn galluogi integreiddio disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd, pan fo'n briodol.

Mae gan yr ysgol drosolwg addas o addysgu medrau yn y fframweithiau llythrennedd a rhifedd; er enghraifft, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn cael cyfleoedd pwrpasol i berfformio eu sgriptiau drama milwr, a darllen testunau cynyddol gymhleth yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae'r ysgol wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau mathemategol disgyblion, ac o ganlyniad, mae eu cynnydd a'u safonau, yn enwedig mewn rhif, yn dda. Er gwaethaf hyn, nid yw athrawon bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso ystod ddigon eang o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm neu ymarfer ysgrifennu'n estynedig mewn ystod ddigon eang o gyd-destunau.

Mae athrawon wedi dechrau ystyried y fframwaith cymhwysedd digidol yn eu cynllunio, ac maent yn darparu digonedd o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau TGCh mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 6 ddefnyddio technoleg sgrin werdd i gefnogi eu proffiliau cymeriad mewn tasg lythrennedd. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg, yn enwedig mewn llafaredd, yn dda. Er enghraifft, maent yn annog disgyblion Blwyddyn 3 i ffurfio brawddegau rhugl i ddisgrifio eu hoff gymeriad ffilm mewn cystadleuaeth llwybr enwogion Hollywood.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r pennaeth a'r staff ar bob lefel wedi sefydlu ethos gofalgar, cefnogol a chynhwysol sy'n treiddio trwy fywyd yr ysgol. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu addysg bersonol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob

un o'r disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn awyddus i gymryd rhan yn eu gweithgareddau.

Mae'r ysgol yn casglu ystod o wybodaeth i olrhain cynnydd disgyblion dros gyfnod. Fodd bynnag, nid yw'r broses hon bob amser yn helpu athrawon ac arweinwyr i ystyried cynnydd a datblygiad unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion ddigon, fel y disgyblion mwy abl a thalentog. Mae cyflwyno cyfarfodydd cynnydd disgyblion bob tymor rhwng athrawon dosbarth ac arweinwyr ysgol yn fwy buddiol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn annog trafodaeth fwy ystyriol am gynnydd pob disgybl ac maent yn helpu athrawon i ystyried yn ofalus y camau nesaf yn nysgu disgyblion a nodi cymorth a her briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion yn eu dosbarth.

Mae ystod briodol o ddarpariaeth lwyddiannus i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys y rhai yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu. Mae'r ysgol yn nodi disgyblion sydd angen cymorth yn gynnar. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol a'r rheolwr dosbarth adnoddau dysgu yn olrhain ac yn monitro eu cynnydd yn ofalus, yn unol â thargedau clir a phenodol yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae staff yn cyflwyno ystod berthnasol o raglenni ymyrraeth yn fedrus ac mae'r rhain yn helpu gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn dda. Mae'r cymorth a ddarperir trwy ddarpariaeth anogaeth yr ysgol, yn ogystal â chymorth gan staff y dosbarth adnoddau dysgu, yn galluogi disgyblion penodol i fod yn wydn yn eu dysgu, a gwella eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da.

Mae ystod eang o glybiau ar ôl yr ysgol sy'n cynnig gweithgareddau chwaraeon a cherddorol. Mae'r rhain yn helpu datblygu medrau corfforol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae ymweliadau gan arweinwyr crefyddol lleol a chyfleoedd i ddisgyblion weithio ochr yn ochr â busnes lleol, er enghraifft i ailgylchu plastig i greu dodrefn, yn cyfoethogi datblygiad ysbrydol a chymdeithasol disgyblion yn bwrpasol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu gweithgareddau dysgu, er enghraifft wrth benderfynu ymchwilio i brofiadau milwyr yn y ffosydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae disgyblion hŷn yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu yn nodi'r hyn y maent wedi'i glywed, ac maent yn dechrau dewis beth ddylent ei wneud nesaf. Er enghraifft, maent yn deall bod reidio beic yn ffordd o gadw'n iach ac yn penderfynu efallai mai eu cam nesaf fydd dilyn saethau ar lwybr beic ar iard yr ysgol i'w helpu i ddatblygu eu gallu i reoli cyfeiriad y beic. Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod addas o grwpiau arweinwyr sy'n dechrau dylanwadu ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol iawn trwy greu'r Wal Graffiti ar iard yr ysgol sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu hysgrifennu yn Gymraeg mewn sefyllfa anffurfiol.

Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd gwaith llwyddiannus gydag asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaeth lleferydd ac iaith yr awdurdod lleol i'w helpu i amlinellu rhaglenni ymyrraeth clir a phenodol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am agweddau ar ddiwylliannau eraill trwy astudio crefyddau amrywiol a thrwy goginio a blasu bwyd a blasau o wledydd eraill. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n dda tuag at baratoi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth well o'r byd ehangach. Mae'r ysgol yn darparu

cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mynegiannol a chreadigol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda tuag at sicrhau bod disgyblion yn mwynhau eu profiadau dysgu a bod ganddynt lefelau uchel o gymhelliant a brwdfrydedd. Enghraifft nodedig yw gwaith celf y disgyblion sy'n gysylltiedig â'r gerdd 'Flanders Fields' lle mae disgyblion wedi peintio a chreu *collage* o gaeau pabi coch gan ddefnyddio delweddau addas sy'n adlewyrchu awyrgylch prudd priodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo ffitrwydd, bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, roedd gwaith disgyblion hŷn yn gysylltiedig â Diwrnod Calon y Byd yn cynnwys cymharu cyfraddau curiad eu calon cyn ac ar ôl cymryd rhan mewn gweithgarwch. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn barod i wrando ar awgrymiadau gan rieni, er enghraifft wrth ailddylunio fformat adroddiadau ysgol. O ganlyniad, mae'r adroddiadau'n rhoi darlun clir o gynnydd disgyblion a thargedau ar gyfer gwella. Mae staff yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu yn gweithio'n hynod agos gyda rhieni i'w cynorthwyo mewn meysydd fel iaith a chyfathrebu, a rheoli ymddygiad eu plant yn y gymuned. Er enghraifft, fe wnaethant drefnu ymweliad teuluol â pharc thema lleol i fodelu strategaethau i gynorthwyo rhieni i reoli ymddygiad y disgyblion.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Ers ymgymryd â'i rôl ym mis Medi 2018, mae'r pennaeth wedi sefydlu a rhannu gweledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n dda ar sicrhau a chynnal lles staff a disgyblion. Mae ganddi ddisgwyliadau proffesiynol uchel ohoni hi ei hun a phobl eraill, ac mae ei hymagwedd gefnogol a sensitif wedi sicrhau ymroddiad staff a llywodraethwyr wrth symud yr ysgol ymlaen. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi ymateb yn gadarnhaol i'r newidiadau y mae'r pennaeth wedi'u gwneud i'r strwythur staffio. Maent yn awyddus i ddiweddaru eu medrau arwain a datblygu eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn frwdfrydig ynglŷn â'r cyfleoedd pwrpasol a gânt yn awr i fod yn rhan annatod o ddyfodol yr ysgol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith ac effeithiolrwydd y newidiadau diweddar hyn wrth ysgogi gwelliant mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol a nodwyd dros gyfnod.

Fe wnaeth hunanadolygiad cynhwysfawr o waith y corff llywodraethol ym mis Ionawr 2019 helpu llywodraethwyr i nodi diffygion yn eu gwaith. O ganlyniad, fe wnaethant ailffurfweddu cyfansoddiad a threfniadaeth y corff llywodraethol yn sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr bellach yn datblygu gwerthfawrogiad cadarn o'u rolau ac yn deall bod angen herio arweinwyr ynglŷn â pherfformiad yr ysgol. Mae pwyllgor gwella ysgol sy'n cyfarfod pob tymor i ystyried cynnydd tuag at flaenoriaethau a nodwyd yn galluogi llywodraethwyr i ddilyn hynt a helynt datblygiadau ac yn eu helpu i wella eu rôl fel ffrindiau beirniadol. Er gwaethaf gwelliannau diweddar, mae diffyg trylwyredd digonol mewn ychydig o feysydd gwaith y corff llywodraethol, er enghraifft eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag adolygu polisïau'r ysgol.

Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r pennaeth wedi ennill dealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Trwy fonitro gwersi, craffu ar waith gydag athrawon a dadansoddi data ar berfformiad, nododd flaenoriaethau gwella priodol ar gyfer yr ysgol yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, er bod yr ysgol yn cael ei harwain yn bennaf gan y pennaeth o hyd, mae pob un o arweinwyr yr

ysgol a'r staff wedi cyfrannu'n briodol at sefydlu cynllun datblygu ysgol defnyddiol. Mae hyn yn darparu cyfeiriad priodol i'r ysgol dros gyfnod, ac yn adeiladu'n briodol ar flaenoriaethau o'r cynllun datblygu blaenorol. Mae hefyd yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys meddwl am, a chynllunio, ar gyfer sut gallai'r ysgol fynd i'r afael â'r cwricwlwm newydd i Gymru. Fodd bynnag, mae elfennau o gynllun datblygu'r ysgol yn rhy uchelgeisiol yng nghyd-destun presennol yr ysgol. Mae strategaethau ar waith i uwch arweinwyr a llywodraethwyr ddechrau cyfrannu'n fwy ymarferol at fonitro cynnydd targedau gwella'r ysgol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn arsylwadau gwersi ar y cyd yn y flwyddyn i ddod wrth iddynt gynyddu eu medrau yn y meysydd hyn.

Mae cyfleoedd cynyddol berthnasol a defnyddiol i staff addysgu a staff cymorth elwa ar ddysgu proffesiynol priodol sy'n perthnasu'n agos â blaenoriaethau gwella a thargedau rheoli perfformiad yr ysgol. Mae ymweliadau athrawon ag ysgolion gwella ansawdd wedi helpu iddynt feddwl am ffyrdd posibl o baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru, tra'n gweithio gyda staff o ysgolion eraill yn y clwstwr i ddatblygu agweddau ar drosglwyddo rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Mae athrawon yn yr ysgol yn rhannu arfer dda ac arbenigedd yn gynyddol. Er enghraifft, mae athrawon sydd wedi cymryd rhan mewn cyfnod sabothol i wella eu medrau Cymraeg yn rhannu eu dysgu â chydweithwyr yn yr un sector ac mae hyn yn cael effaith nodedig ar ansawdd medrau Cymraeg disgyblion.

Mae prosesau rheoli perfformiad bellach ar waith ar gyfer pob un o'r staff, ac mae hyn yn cefnogi datblygiadau mewn dysgu proffesiynol yn briodol. Mae cyfrifoldebau rheolwyr llinell yn glir ac mae targedau unigolion yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau dosbarth ac ysgol. Mae hyn yn helpu cynnal ffocws priodol ar wella addysgu a gwerthuso'i effaith ar ddeilliannau disgyblion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pwyllgor cyllid y corff llywodraethol a'r pennaeth, gyda chymorth gan swyddog cyllid yr awdurdod lleol, wedi sefydlu gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli a monitro cyllideb yr ysgol. Mae grantiau ychwanegol wedi eu helpu i wneud cynnydd addas wrth leihau'r diffyg yng nghyllideb yr ysgol eleni. Fodd bynnag, mae trefniadaeth bresennol yr ysgol yn arwain at gostau cymharol uchel, ac mae hyn yn lleihau gallu'r ysgol yn sylweddol i ariannu blaenoriaethau gwella'r ysgol yn effeithiol. Er enghraifft, mae cyfyngiadau yn yr amgylchedd awyr agored a chyflwr rhai ardaloedd ac adnoddau yn golygu nad yw holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn cael cyfle i elwa ar ystod eang o weithgareddau awyr agored pwrpasol bob dydd.

Mae cynlluniau priodol ar waith ar gyfer defnyddio'r grant datblygu disgyblion i gynorthwyo disgyblion i wella eu presenoldeb, cefnogi eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol, a chodi'r safonau y maent yn eu cyflawni yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol bob amser yn targedu'r grant hwn yn ddigon penodol i sicrhau bod pob disgybl cymwys yn elwa arno.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/02/2020